RSPCA addysg
partneriaid mewn dysg

Addysg ac anifeiliaid

Canllawiau ar gyfer sefydliadau addysgol

Yng Nghymru a Lloegr

Cynnwys

		Tudalen
Cyflwyniad – polisïau'r RSPCA		3
1.	**'Dyletswydd o ofal'**	3
	Cyflwyniad	3
	Pwrpas y canllawiau hyn	4
	Anghenion lles anifeiliaid anwes dosbarth	4
	Anghenion lles anifeiliaid fferm	6
	Bridio anifeiliaid	9
	Ymwelwyr ag anifeiliaid a digwyddiadau anifeiliaid	9
2.	**Dewisiadau eraill i sefydliadau addysgol sy'n cadw anifeiliaid**	10
	Anifeiliaid anwes dosbarth	10
	Sioeau anifeiliaid anwes	10
	Anifeiliaid fferm	10
	Ardaloedd bywyd gwyllt	10
3.	**Protocolau a chynlluniau gofal**	11
	Arfer da	11
4.	**Prynu anifeiliaid anwes ac anifeiliaid anwes fel gwobrau**	12
5.	**Sioeau cŵn a docio cynffonnau**	12
6.	**Dyrannu anifeiliaid meirw**	12
7.	**Arbrofion ymddygiad**	13
8.	**Technoleg**	13
9.	**Sefydliadau addysgol sy'n gyfeillgar i anifeiliaid**	13
	Manteision	13
	Meysydd i feddwl amdanynt	13
	Sut gall yr RSPCA helpu	15
Gwefannau defnyddiol		16

Cyflwyniad

Polisïau'r RSPCA *

Mae'r RSPCA yn gwrthwynebu defnyddio anifeiliaid ar gyfer addysg ble mae gofid a dioddefaint yn debygol o gael eu hachosi.

Mae'r RSPCA yn anghefnogi'n gryf cadw anifeiliaid mewn ysgolion.

- Cred yr RSPCA y gall lles anifeiliaid gael ei ddysgu mewn ysgolion heb gadw anifeiliaid yn gaeth. Dylai astudio anifail yn ei amgylchfyd naturiol anelu tuag at achosi'r lleiafrif posibl o rwystredigaeth wrth roi'r cyfle addysgiadol uchaf.
- Cred yr RSPCA fod rhaid cael rhesymeg addysgiadol lles anifeiliaid pendant dros ddefnyddio anifeiliaid mewn addysg, a rhaid ystyried deddfwriaeth sy'n ymwneud ag anifeiliaid wrth ddatblygu rhaglenni astudiaeth.
- Cred yr RSPCA na ddylai anifeiliaid gael eu cadw mewn sefydliadau addysgol ac eithrio pan fydd dewisiadau eraill yn amhosibl.
- Cred yr RSPCA fod pawb yn deilwng i gael addysg lles anifeiliaid. Gall atal creulondeb a hyrwyddo caredigrwydd i anifeiliaid eu cyflawni orau drwy weithgareddau addysgol ffurfiol ac anffurfiol.

1. 'Dyletswydd o ofal'

O ganlyniad i Ddeddf Lles Anifeiliaid newydd yn 2006, mae gan reolwyr a staff sefydliadau addysgol "ddyletswydd o ofal" gyfreithiol i sicrhau y darperir yn briodol ar gyfer lles unrhyw anifail ag asgwrn cefn y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig yn ystod amser tymor ond hefyd yn ystod y gwyliau.

Mae'r Ddeddf yn dweud bod anghenion lles anifeiliaid yn cynnwys:

- yr angen am amgylchedd addas
- yr angen am ddiet addas
- yr angen i fedru arddangos patrymau ymddygiad normal
- unrhyw angen sydd ganddo i fod wedi ei ymgartrefi gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân iddynt
- yr angen i gael ei ddiogelu rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefyd.

Mae'r rhestr yma yn darparu rhestr wirio lles sylfaenol ar gyfer anifeiliaid anwes dosbarth, anifeiliaid fferm 'ysgol', anifeiliaid anwes sydd wedi eu cludo i mewn i sefydliadau addysgol gan blant/pobl ifanc (e.e. sioeau anifeiliaid anwes, gwasanaethau anifeiliaid anwes) a gan ymwelwyr eraill.

Dylai anifeiliaid sy'n debygol o fynd mewn i'r ysgol gael eu dewis yn ofalus i sicrhau nad yw'r profiad yn debygol o fod yn frawychus. Dylent barhau ym mhresenoldeb eu perchennog/hyfforddwr yn ystod yr ymweliad a gadael yr ysgol yn syth wedi i'w pwrpas addysgol gael ei gyflawni. Os yw anifail yn dangos arwyddion o ofn neu ofid dylai gael ei symud i ffwrdd o ffynhonnell yr ofn yn syth.

Mae'r 'ddyletswydd o ofal' yn berthnasol i unrhyw un sydd:

- yn berchen ar yr anifail
- yn gofalu am yr anifail neu
- yn rhiant neu warcheidwad rhywun dan 16 sy'n gyfrifol am yr anifail.

Gall rhywun fod yn gyfrifol am anifail ar sail dros dro, er enghraifft, athro llanw sy'n gofalu am anifail anwes dosbarth neu rywun sy'n edrych ar ôl anifail anwes dosbarth yn ystod y gwyliau.

Gall mwy nag un fod yn gyfreithiol gyfrifol am anifail ar unrhyw un adeg.

Gall unrhyw un sy'n greulon i anifail neu sydd ddim yn darparu ar gyfer ei les gael ei wahardd rhag bod yn berchen ar anifeiliaid a derbyn dirwy hyd at £20,000 a/neu gael ei garcharu.

Pwrpas y canllawiau hyn

Nid y dehongliad o anghenion lles yn y llyfryn hwn yw'r unig ddehongliad o'r 'ddyletswydd o ofal' ac ni ellir dibynnu arno fel y dehongliad y byddai llys yn ei dderbyn mewn unrhyw achos penodol.

Nid bwriad y llyfryn hwn yw bod yn gyngor milfeddygol neu gyfreithiol ond canllawiau yn unig i reolwyr a staff sefydliadau addysgol ar:

- y cyfrifoldebau newydd a grëwyd gan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006
- polisïau'r RSPCA ar addysg ac anifeiliaid, a
- sut i fod yn sefydliad addysgol sy'n gyfeillgar i anifeiliaid.

Ar gyfer pwrpas y canllawiau hyn, mae 'sefydliad addysgol' yn cyfeirio at unrhyw sefydliad sy'n gyfrifol am ddarparu addysg ar gyfer plant a pobl ifanc i fyny at 16 mlwydd oed, e.e. meithrinfeydd, ysgolion, ysgolion arbennig ac academïau.

Anghenion lles anifeiliaid anwes dosbarth

Mae'r RSPCA yn anghefnogi'n gryf cadw anifeiliaid mewn ysgolion.*

- Gall ysgolion fod yn llefydd swnllyd a brawychus i rai anifeiliaid ac mae'n anodd iawn edrych ar ôl angen unrhyw anifail mewn amgylchfyd dosbarth. Mae hyn yn berthnasol i bob anifail, gan gynnwys malwod tir Affricanaidd a physgod.
- Cred yr RSPCA ei bod yn bosibl addysgu lles anifeiliaid yn yr ysgol heb gadw anifeiliaid yn gaeth. Dylai astudio anifail yn ei amgylchedd naturiol anelu at achosi cyn lleied o darfu â phosibl a mwyhau'r cyfle addysgol.
- Cred yr RSPCA fod rhaid cael rhesymeg addysgol lles anifeiliaid pendant dros ddefnyddio anifeiliaid mewn addysg, a rhaid ystyried deddfwriaeth sy'n ymwneud ag anifeiliaid wrth ddatblygu rhaglenni astudiaeth.
- Lle cedwir anifeiliaid mewn ysgolion dylai fod darpariaeth briodol ar gyfer eu lles corfforol a meddyliol.

Rhaid i unrhyw staff sy'n gyfrifol am anifeiliaid anwes dosbarth sicrhau bod anghenion yr anifeiliaid hyn yn cael eu bodloni.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan yr anifail:

- **Llety sy'n addas i'r anifail a'i faint**
  Er enghraifft, a ddylai'r anifail:
  - ✓ gael mynediad i'r awyr agored a thu mewn a/neu rywle sydd wedi ei ddiogelu rhag yr oerfel?
  - ✓ gael ei ddiogelu rhag rheibwyr?
  - ✓ gael trefniadau cysgu arbennig?
  - ✓ gael llety clyd? Pa mor aml ddylai hwn gael ei lanhau?
  - ✓ gael ei gadw allan o'r haul uniongyrchol?
  - ✓ gael golau a gwres ychwanegol?
  - ✓ gael amgaead mawr wrth iddo dyfu'n fwy?

- **Bwyd addas a dŵr ffres**
  Er enghraifft, a ddylai'r anifail:
  - ✓ gael ei fwydo unwaith neu ddwywaith y dydd?
  - ✓ dderbyn diet cytbwys a maethlon?
  - ✓ gael ei fwydo gyda bwyd byw?
  - ✓ gael cyflenwad parhaus o ddŵr yfed ffres a glân?

- **Rhyddid i arddangos patrymau ymddygiad normal**
  Er enghraifft, a ddylai'r anifail:
  - ✓ gael ei drin yn ystod y dydd?
  - ✓ gael mynediad i ddŵr ymdrochi?
  - ✓ gael bloc cnoi?
  - ✓ gael ymarfer corff dyddiol? Sut y gellir sicrhau hyn?
  - ✓ gael teganau ac, os felly, pa deganau?



- **Cwmnïaeth addas**
  Er enghraifft, a ddylai'r anifail:
  - ✓ gael ei gadw ar ben ei hun?
  - ✓ gael cwmni rhywogaeth ei hun?
  - ✓ gael ei gadw ar wahân i rai rhywogaethau eraill o anifeiliaid anwes?

- **Amddiffyniad rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefyd**
  Er enghraifft, a ddylai'r anifail:
  - ✓ gael ei frwsio'n rheolaidd?
  - ✓ gael pigiadau er mwyn atal clefydau difrifol?
  - ✓ gael ei ysbaddu?
  - ✓ gael ei archwilio gan filfeddyg? Beth yw'r arwyddion o salwch?

Dylai'r sawl sy'n gyfrifol am yr anifail fod yn medru adnabod arwyddion o salwch neu anaf, a meddu ar yr awdurdod a'r adnoddau i ofyn am gyngor milfeddygol yn syth. Gall hyn fod yn gostus, yn enwedig os yw'r anifail angen triniaeth claf mewnol ym meddygfa'r milfeddyg. Mae angen ystyried hefyd sut i roi'r triniaethau angenrheidiol i'r anifail, yn enwedig dros y penwythnos a'r gwyliau.

Cyn cael anifail, ystyriwch pa mor hir mae'r anifail yn debygol o fyw gan y gall hyn fod yn hirach na'r disgwyl. Er enghraifft, gall moch cwta fyw hyd at saith mlynedd, byjis hyd at ddeng mlynedd, pysgodyn aur hyd at 25 mlynedd, terapiniaid hyd at 30 mlynedd a chrwbanod am fwy na 50 mlynedd.

Mae'r RSPCA yn argymell bod:

- unigolyn a enwir yn gyfrifol am les a magu'r anifeiliaid bob amser
- unrhyw gysylltiad rhwng plant/pobl ifanc ac anifeiliaid wedi ei oruchwylio a'i reoli
- yr anifeiliaid yn derbyn cyfnodau addas o orffwys i ffwrdd o unrhyw aflonyddwch
- ffordd o fyw'r anifail (yn unol â'i rywogaeth) yn gweddu'r diwrnod academaidd, a bod
- unrhyw anifeiliaid sy'n cael eu cadw yn cael eu hatal rhag bridio diwahaniaeth.

Bydd maes cyfrifoldeb y sefydliad addysgol mewn unrhyw achos arbennig yn amrywio yn ôl amgylchiadau'r anifail.

Mae mwy o wybodaeth am ofalu am anifeiliaid anwes ar wefan yr RSPCA. Ewch i **www.rspca.org.uk/petcare**.

Anghenion lles anifeiliaid fferm

Mae'r RSPCA yn anghefnogi cadw anifeiliaid mewn ysgolion.*

- Gall ysgolion fod yn llefydd swnllyd a brawychus i rai anifeiliaid ac mae'n anodd iawn edrych ar ôl angen unrhyw anifail mewn amgylchfyd dosbarth. Mae hyn yn berthnasol i bob anifail, gan gynnwys malwod tir Affricanaidd a physgod.
- Cred yr RSPCA y gellir dysgu lles anifeiliaid mewn ysgolion heb gadw anifeiliaid yn gaeth. Fe ddylai astudio anifail yn ei amgylchfyd naturiol anelu tuag at achosi'r lleiafswm o aflonyddwch wrth wneud y mwyaf o'r cyfle addysgol.
- Cred yr RSPCA fod rhaid cael rhesymeg addysgol lles anifeiliaid pendant dros ddefnyddio anifeiliaid mewn addysg, a rhaid ystyried deddfwriaeth sy'n ymwneud ag anifeiliaid wrth ddatblygu rhaglenni astudiaeth.
- Lle cedwir anifeiliaid mewn ysgolion dylai fod darpariaeth briodol ar gyfer eu lles corfforol a meddyliol.

Mae gan roi mynediad i ffermydd i bobl ifanc y potensial i fod yn ffordd dda o'u dysgu am anifeiliaid fferm ac o ble y mae bwyd yn dod. Dylai'r ymweliad fod yn rhan o gynllun gwaith sy'n archwilio'r berthynas rhwng lles anifeiliaid a ffermio. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae'n bosibl nad yw amgylcheddau addysgol yn ddelfrydol ar gyfer cadw anifeiliaid fferm.

Mae gan reolwyr a staff mewn sefydliadau addysgol ddyletswydd gyfreithiol i gymryd camau rhesymol er mwyn sicrhau bod anghenion lles anifeiliaid fferm maent yn gyfrifol amdanynt yn cael eu cwrdd. Mae hefyd rhai materion iechyd a diogelwch dynol y mae'n rhaid i sefydliadau addysgol eu hystyried.

Mae rhai o'r materion hyn yn cynnwys:

Amgylchedd addas

Fe ddylai sefydliadau addysgol ond ystyried cadw anifeiliaid fferm os oes ganddynt lety/caeau addas ar gyfer cadw'r anifeiliaid i ffwrdd o'r amgylchedd addysgol swnllyd. Dylai hyn gynnwys:

Lloches/cysgod

- ✓ Dylai pob anifail fferm gan gynnwys ieir gael mynediad i loches addas bob amser, sy'n ddigon mawr i gadw'r holl anifeiliaid gyda'i gilydd. Dylai gael ei adeiladu a'i insiwleiddio er mwyn rhoi amddiffyniad priodol yn erbyn tywydd eithafol (oer/gwlyb a phoeth).
- ✓ Dylai holl adeiladau/llochesau gael eu gwyntyllu'n addas, ond dylid diogelu anifeiliaid rhag drafftiau.
- ✓ Rhaid i foch gael mynediad i ymdrochfa (pyllau o fwd) a/neu ffyrdd eraill o gadw'n oer braf mewn tywydd poeth.
- ✓ Rhaid i hwyaid gael mynediad i ddŵr er mwyn trochi eu pennau ac ymdrochi. Mae angen ei gadw'n lân er mwyn atal haint a chlefyd.

Digon o le

- ✓ Fe fydd hyn yn amrywio yn ôl rhywogaeth, oed a brid yr anifeiliaid fferm a gedwir.
- ✓ Rhaid i'r holl anifeiliaid gael mynediad i fan gorwedd cyfforddus sydd â sylfaen gadarn, a digon o ddeunydd gwely addas. Dylai gael ei newid/ailgyflenwi yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n sych.
- ✓ Dylai'r man gorwedd fod yn ddigon mawr i gynnwys yr holl anifeiliaid yn gorwedd gyda'i gilydd mewn safle ymestynnol.

- ✓ Rhaid cael man addas ar gyfer ymarfer corff i'r anifeiliaid a digon o le i sicrhau y gallant symud o gwmpas yn rhydd ac ymddwyn yn naturiol.
- ✓ Rhaid i ieir gael mynediad i glwydi/mannau clwydo addas ac, yn achos adar yn dodwy, safleoedd/blychau nythu tawel.
- ✓ Dylid cael argymhellion penodol o safbwynt maint y lle ar gyfer pob rhywogaeth gan y mudiadau amaethyddol/lles perthnasol.

Llawr

- ✓ Rhaid i hwn fod yn addas i oedran/rhywogaeth yr anifail fferm sy'n cael ei gadw.
- ✓ Ni ddylai'r ddaear fod yn rhy galed neu arw, na'n llithrig o gwbl, ac fe ddylai gael ei gadw mewn cyflwr da er mwyn sicrhau nad oes unrhyw anafiadau yn cael eu hachosi i draed yr anifeiliaid.

Gwely

- ✓ Rhaid bod deunydd gwely glân, sych ac addas fel gwellt ar gael i famaliaid, a digon ohono i greu wyneb gorwedd cyfforddus.
- ✓ Ni ddylai'r ddaear fod yn rhy galed neu arw na'n llithrig o gwbl, ac fe ddylai gael ei gadw mewn cyflwr da er mwyn sicrhau nad oes unrhyw anafiadau yn cael eu hachosi i draed yr anifeiliaid.

Ffensys

- ✓ Rhaid i'r rhain fod yn ddigon cryf i ddal y rhywogaeth dan sylw a rhaid eu cynnal a chadw yn gywir ac ni ddylai achosi anaf i'r anifeiliaid.

Bwyd addas a dŵr ffres

- Mae math a chyfanswm y bwyd sydd ei angen yn amrywio nid yn unig yn ôl rhywogaeth, ond hefyd oedran, cyfnod cynhyrchu (e.e. mae gan fenywod sy'n llaetha anghenion gwahanol i oedolion eraill) a brid.
- Rhaid penderfynu anghenion diet pob math o anifail drwy ymgynghori â milfeddyg neu ymgynghorydd maeth anifeiliaid.
- Rhaid bod cyflenwad parhaus o ddŵr yfed glân a ffres ar gael i'r holl anifeiliaid.
- Rhaid i'r cafnau a chynhwyswyr fod yn addas i'r anifeiliaid sy'n eu defnyddio (e.e. yr uchder a'r dimensiynau cywir er mwyn caniatáu mynediad rhwydd) a rhaid iddynt fod yn hawdd eu glanhau.



Yn gallu arddangos patrymau ymddygiad normal

- Ni ddylid cadw anifeiliaid fferm mewn amgylchedd diffrwyth nad yw'n eu galluogi i ymddwyn yn naturiol, a gall hynny arwain at ddiflastod a rhwystredigaeth. Er enghraifft, mae gan foch duedd cryf i ymchwilio, ac mae arnynt angen digon o ddeunydd addas er mwyn gwneud hyn.
- Fe fydd y rhan fwyaf o ieir angen deunydd llaesod addas (y mae'n rhaid ei gadw'n sych ac yn friwsionllyd) fel eu bod yn gallu crafu ac ymdrochi yn y llwch.
- Mae ar ieir angen clwydi addas er mwyn clwydo gyda'r nos.

Cwmnïaeth

- Dylai anifeiliaid fferm gael cwmni o'r un fath â nhw, ac yn bendant ni ddylent gael eu hynysu oddi wrth olwg, sŵn neu arogl anifeiliaid fferm eraill.
- Dylai anifeiliaid sy'n oedolion gael eu cyflwyno i'w gilydd yn ofalus iawn gan fod rhai rhywogaethau yn ymosodol tuag at unigolion anghyfarwydd.
- Rhaid meddwl am y canlyniadau posibl o symud yr ifanc wrth yr oedolyn e.e. os yw'r ifanc i gyd yn cael eu symud, bydd yr anifail yn cael ei adael ar ben ei hun.

Amddiffyniad rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefyd

- Rhaid datblygu cynllun iechyd milfeddygol ar gyfer pob rhywogaeth ar y cyd â'r milfeddyg sy'n bresennol.
- Mae archwiliadau milfeddyg rheolaidd yn ofynnol, ynghyd ag imiwneiddio addas, trin ac atal parasitiaid allanol a mewnol, torri gewyn traed (os oes angen) amryw rywogaethau (i'w wneud gan rywun cymwys sydd wedi ei hyfforddi a chan ddefnyddio'r offer cywir), cneifio defaid, lamaod, a.y.b. (gan rywun cymwys wedi ei hyfforddi), ac amryw o gamau eraill sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal iechyd.
- Rhaid darparu ar gyfer dinistrio anifeiliaid sy'n sâl / wedi eu hanafu ar y fferm ac mewn ffordd drugarog ar unwaith, lle bo angen. Rhaid i hyn gael ei wneud gan unigolion galluog hyfforddedig, yn defnyddio'r offer cywir wedi ei gynnal yn dda neu'n ddelfrydol gan filfeddyg.

Ceidwaid stoc a rheolaeth gyffredinol

- Mae'n hanfodol bod yna unigolyn stoc neilltuedig profiadol i ofalu am yr anifeiliaid bob dydd.
- Ni ddylid gadael y gofal i bobl ifanc neu staff dibrofiad yn unig a allai anghofio bwydo a gwirio'r anifeiliaid. Mae'n bosibl na fyddant yn adnabod arwyddion o broblemau iechyd a lles.
- Dylai holl geidwaid stoc sy'n gofalu am anifeiliaid gael eu hyfforddi'n gywir (yn ddelfrydol, dylai'r hyfforddiant gael ei ddilysu e.e. NVQ) ac yn alluog yn yr agweddau o fagu anifeiliaid y bydd galw arnynt i ymgymryd â nhw ar gyfer pob rhywogaeth.
- Dylai pob unigolyn stoc neu unigolyn galluog arall fod yn bresennol ar y safle bob amser (h.y. gofal 24 awr) os yw lles yr anifail i'w ddiogelu'n gywir. Er enghraifft, mewn achos o dân, mae anifeiliaid yn fwy tebygol o gael eu symud os oes rhywun ar y safle i seinio rhybudd a gweithredu'n briodol.
- Rhaid datblygu a gweithredu cynlluniau a chymryd camau i atal/ymdrin ag argyfyngau fel tân a methiant cyflenwadau, e.e. bwyd, dŵr, trydan. Dylai'r holl staff fod yn ymwybodol o'r camau hyn a bod yn gyfarwydd â nhw.

Mynediad

- Dylai'r sefydliad addysgol sicrhau bod plant/pobl ifanc bob amser yn cael eu goruchwylio'n ofalus o gwmpas anifeiliaid fferm ac yn cael eu dysgu i'w trin â pharch.
- Gall nifer uchel o bobl yn crwydro o gwmpas ddychryn yr anifeiliaid, felly dim ond grwpiau bach sy'n cael eu goruchwylio y dylid eu caniatáu ar y tro a chan ddilyn canllawiau ymddwyn llym.
- Dylid cyfyngu cysylltiad corfforol uniongyrchol yn llym neu dylid ei osgoi yn gyfan gwbl, am y rhesymau canlynol:
  - ✓ Gall cysylltiad corfforol drosglwyddo clefyd neu haint i anifeiliaid a gallai achosi anaf iddynt (yn enwedig o safbwynt anifeiliaid ifanc), ofn a gofid (yn enwedig gyda rhywogaethau nerfus fel ceirw).
  - ✓ Gall trin neu gysylltiad agos arall ag anifeiliaid newydd anedig achosi'r fam i gam-fagu (y fam yn gwrthod ei hepil).
  - ✓ Gall anifeiliaid fferm gludo nifer o glefydau y gellir eu trosglwyddo i fodau dynol (clefydau milhaint).
  - ✓ Gall pobl gael eu hanafu os yw anifeiliaid yn aflonyddu, yn dychryn neu'n amddiffyn eu hepil.

Cludo a lladd

- Os oes angen cludo anifeiliaid fferm, rhaid darparu ar gyfer hyn dan amodau priodol gan unigolion medrus hyfforddedig, a dylai'r amserau teithio fod y lleiaf posibl.
- Os yw anifeiliaid yn cael eu lladd mewn lladd-dy, dylai'r lladd-dy feddu ar swyddog lles anifeiliaid wedi ei hyfforddi'n arbennig i oruchwylio'r lladd (mae'r RSPCA yn argymell bod pob lladd-dy yn penodi swyddog lles anifeiliaid), a rhaid i'r holl staff fod yn gwbl hyfforddedig a medrus.

Deddfwriaeth anifeiliaid fferm

- Dylai sefydliadau addysgol fod yn ymwybodol o'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â pherchnogaeth a symud anifeiliaid fferm a chael eu diweddaru am unrhyw ddeddfwriaeth newydd.
- Bydd y maes cyfrifoldeb y sefydliad yn amrywio yn unol ag amgylchiadau'r anifail unigol.

Am ragor o wybodaeth, gweler:

Defra – lles anifeiliaid ar y fferm
http://www.defra.gov.uk/food-farm/animals/

RSPCA – anifeiliaid fferm
www.rspca.org.uk/farmanimals

RSPCA – gofal anifeiliaid anwes – anifeiliaid buarth fferm
www.rspca.org.uk/servlet/Satellite?pagename=RSPCA/Page/RSPCAContentTemplate&cid=1152286830520&articleId=1154077752404

Bridio anifeiliaid

Mae'r RSPCA yn gwrthwynebu rhaglenni bridio mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys defnyddio deoryddion ac amgylchedd artiffisial ar gyfer anifeiliaid.*

Lle cedwir anifeiliaid mewn ysgolion dylid darparu'n briodol ar gyfer eu lles corfforol a meddyliol.*

Mae hyn hefyd yn cynnwys defnyddio citiau bridio gloynnod byw a malwod, mwydon, morgrug a grifft brogaid.

Mae'n anodd sicrhau lles anifeiliaid sy'n bridio mewn ysgolion ac mae'r RSPCA yn credu nad yw'r rhaglenni astudio hyn yn hyrwyddo agweddau cyfrifol ar ofal a magu anifeiliaid.

Ymwelwyr ag anifeiliaid a digwyddiadau anifeiliaid

Mae'r RSPCA yn gwrthwynebu'r holl gynlluniau sy'n dod ag anifeiliaid i mewn i sefydliadau addysgol, sy'n niweidiol i les anifeiliaid.*

Mae'r RSPCA yn gwrthwynebu ymwelwyr yn mynd ag anifeiliaid i mewn i sefydliadau addysgol, lle maent yn cael eu defnyddio yn bennaf ar gyfer adloniant ac nid yn rhan fel rhaglen astudio a ddiffiniwyd yn glir.*

Mae llawer o gynlluniau llefarwyr sy'n ymweld â digwyddiadau eraill sy'n cynnwys anifeiliaid yn peidio â rhoi anghenion anifeiliaid yn gyntaf. Yn aml mae anifeiliaid yn cael eu cludo dan amodau anaddas, ac mae'r sŵn a natur anghyfarwydd y sefydliad addysgol yn gallu achosi gofid. Dylid cofio nad yw anifeiliaid yn adnodd addysgol yn unig; creaduriaid byw ydynt ac ni ddylid diystyru eu hanghenion lles er mwyn dibenion addysgol tymor byr.

Mae'r RSPCA yn gwrthwynebu digwyddiadau ac achlysuron codi arian mewn ysgolion sy'n cynnwys anifeiliaid gan na ellir sicrhau eu lles drwy'r amser. Mae'r rhain yn cynnwys rasys asynnod, moch, defaid a malwod, arddangosfeydd adar ysglyfaethus, sioeau anifeiliaid anwes a digwyddiadau lle defnyddir anifeiliaid fel gwobrau.

2. Dewisiadau eraill i sefydliadau addysgol sy'n cadw anifeiliaid

O ystyried yr heriau sy'n codi o ganlyniad i'r 'ddyletswydd o ofal' gyfreithiol, mae'r RSPCA yn argymell, yn hytrach na cheisio cadw a gofalu am eu hanifeiliaid eu hunain, y dylai sefydliadau addysgol ystyried dewisiadau eraill.

Anifeiliaid anwes dosbarth

Mae rhai dewisiadau eraill i gadw anifeiliaid iawn yn cynnwys:

- teganau meddal a phropiau
- chwarae rôl a gweithgareddau drama
- llyfrau, fideos, DVDs a CD-ROMs
- gwylio ymddygiad anifeiliaid yn eu cynefin naturiol
- datblygu man bywyd gwyllt ar dir yr ysgol (gweler isod).

Sioeau anifeiliaid anwes

Mae rhai dewisiadau eraill i ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid yn cynnwys:

- noddi clirio sbwriel
- teithiau noddedig cerdded cŵn
- sioe ffotograffiaeth lle gall plant/pobl ifanc ddod â ffotograffau o'u hanifeiliaid anwes neu hoff anifeiliaid i mewn i'r ysgol.

Anifeiliaid fferm

Nid yw'r RSPCA yn cefnogi ymweliadau â lleoliadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid, sy'n cynyddu lefelau gofid neu sy'n aflonyddu'r anifeiliaid yn ddiangen. Rhaid i les yr anifail barhau yn hollbwysig.*

Cred yr RSPCA y dylai holl ymweliadau addysgol fod yn rhan o gwricwlwm lles anifeiliaid strwythuredig.*

Mae'r RSPCA yn argymell yn hytrach na cheisio sefydlu a chynnal ffermydd eu hunain y dylai sefydliadau addysgol ymweld â ffermydd lleol. Bydd yr ymagwedd hon yn rhoi darlun mwy realistig i'r plant o ffermio modern a masnachol anifeiliaid byw.

Partneriaeth yw Mynediad i Ffermydd (ATF) o fudiadau cenedlaethol sy'n anelu at wella cyfleoedd ac ansawdd mynediad addysgol ysgolion i ffermydd. Mae Mynediad i Ffermydd wedi datblygu bas data mwyaf cynhwysfawr y wlad o ffermydd sy'n darparu mynediad addysgol. Mae'r bartneriaeth yn rhannu gwybodaeth ac arfer da, trefnu prosiectau addysgol ar y cyd, achredu ffermydd sy'n cydweithio gyda grwpiau ysgol, darparu hyfforddiant, ac yn rheoli bas data ar y we sy'n caniatáu i athrawon ddarganfod yr ysgol agosaf neu fwyaf addas i ymweld â hi (www.growingschools.org.uk/).

Ardaloedd bywyd gwyllt

Cred yr RSPCA y dylid astudio anifeiliaid di-asgwrn-cefn bychain (bwystfilod bychain) yn eu cynefinoedd naturiol yn hytrach nag yn y dosbarth.*

Mae'r RSPCA yn annog sefydlu mannau bywyd gwyllt ar dir diogel ysgol, er lles yr anifeiliaid ac er mwyn ehangu ac annog astudiaeth addysgol.

Dylid rhoi ystyriaeth bob amser i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â bywyd gwyllt Prydain.

Gall creu man bywyd gwyllt:

- godi ymwybyddiaeth o anifeiliaid gwyllt yr ardal leol
- annog parch tuag at anifeiliaid gwyllt a'u cynefinoedd
- amlygu pa mor ddeniadol yw tir y sefydliad addysgol i anifeiliaid
- arwain at ddealltwriaeth o sut y gall pobl niweidio neu helpu bywyd gwyllt.

Fodd bynnag, mae'n ddoeth datblygu côd ymddygiad addas ar gyfer defnyddio mannau bywyd gwyllt ac astudio anifeiliaid yn eu hamgylchedd naturiol. Er enghraifft:

- peidiwch â chyffwrdd yr anifeiliaid – tynnwch lun neu ffotograff yn lle hyn
- symudwch yn dawel ac yn araf fel nad ydych yn tarfu ar yr anifeiliaid – a byddwch yn ofalus i beidio â chamu ar unrhyw anifeiliaid sy'n cropian/hedfan i ffwrdd
- gadewch gartrefi anifeiliaid yn union fel yr oeddent pan wnaethoch eu darganfod. Os ydych yn symud creigiau a boncyffion, rhowch nhw yn ôl fel yr oeddent
- peidiwch â thaflu sbwriel.

Byddai angen cyfleu'r côd hwn i blant/pobl ifanc, a byddai'n bosibl ysgrifennu'r côd ar y cyd â'r plant/pobl ifanc. Am syniadau ar gyfer gwersi ar wylio anifeiliaid ar dir ysgol, ewch i www.rspca.org.uk/education

3. Protocolau a chynlluniau gofal

Os cedwir anifeiliaid mewn sefydliadau addysgol neu os deuir â nhw i mewn i'r sefydliad, argymhellir datblygu protocolau a chynlluniau gofal addas, â chymorth milfeddyg neu arbenigwr, ar gyfer pob un o'r gwahanol fathau o anifeiliaid sy'n cael eu gofalu gan y sefydliad.

Dylai'r protocolau a chynlluniau gofal fod yn benodol ar gyfer y gwahanol fathau o anifeiliaid sy'n cael eu cadw gan y sefydliad addysgol ac ymdrin â materion fel:

- yr amodau a chyfleusterau y mae'r anifail yn cael ei gadw ynddynt (dros dro neu'n barhaol)
- darpariaeth bwyd a dŵr
- pwy sy'n gyfrifol am ofalu am yr anifail o ddydd i ddydd yn ystod gwahanol adegau o'r flwyddyn academaidd, gan gynnwys penwythnosau a gwyliau
- pa gofnodion y dylid eu cadw a chan bwy
- beth i'w wneud ac â phwy i gysylltu os yw'r anifail yn sâl neu'n marw
- camau diogelwch yn ystod argyfwng, sy'n arwain at gau'r sefydliad am gyfnod dros dro neu'n barhaol (e.e. llifogydd, tân, methiant cyflenwadau fel bwyd a thrydan).

Mae protocolau, cynlluniau gofal a chadw cofnodion yn ffyrdd da o sicrhau ac arddangos bod rheolwyr a staff y sefydliadau addysgol yn cymryd eu cyfrifoldebau cyfreithiol mewn perthynas ag anifeiliaid o ddifrif.

Arfer da

Mae'n ofynnol i sefydliadau addysgol ddilyn y safon o 'arfer da' wrth ofalu am anifeiliaid. Nid yw Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn diffinio beth yw 'arfer da', a allai fod yn oddrychol.

Felly tan i achosion llys esbonio ei ystyr, cynghorir sefydliadau addysgol i ddilyn:

- canllawiau arfer da a gyhoeddir gan fudiadau ag enw da a gwybodaeth arbenigol wrth ofalu am anifeiliaid
- cyngor a roddir gan filfeddyg

- unrhyw godau ymarfer perthnasol a gyhoeddir o dan y Ddeddf Lles Anifeiliaid, a allai gynnig canllaw ymarferol ar gyfer gofalu am fathau penodol o anifeiliaid.

4. Prynu anifeiliaid anwes ac anifeiliaid anwes fel gwobrau

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, mae'n anghyfreithlon gwerthu anifail i blentyn/unigolyn ifanc dan 16 oed. Mae'r oedran y gall plentyn/unigolyn ifanc brynu anifail anwes wedi codi i 16.

Gall blentyn/unigolyn ifanc ddal i fod yn berchen ar anifail anwes a gall rhiant neu oedolyn cyfrifol brynu anifail anwes i blentyn dan 16. Fodd bynnag, mae'r oedolyn cyfrifol yn gyfreithiol gyfrifol am yr anifail anwes newydd a bydd angen iddo sicrhau y gofelir amdano'n briodol.

Mae hefyd yn anghyfreithlon cgynnig anifail anwes fel gwobr i blentyn/unigolyn ifanc dan 16 nad yw yng nghwmni oedolyn.

5. Sioeau cŵn a docio cynffonnau

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, mae tocio cynffonnau cŵn yn anghyfreithlon erbyn hyn, oni bai ei fod yn angenrheidiol am resymau meddygol neu mewn perthynas â rhai mathau o gŵn gweithio.

Mae hefyd gwaharddiad ar arddangos cŵn wedi eu tocio ers 6 Ebrill 2007 yn Lloegr a 28 Mawrth 2007 yng Nghymru, mewn digwyddiadau lle mae'r cyhoedd yn talu am fynediad.

Yr unig gŵn â chynffonnau wedi tocio y gellir eu harddangos mewn digwyddiadau lle mae'r cyhoedd yn talu am fynediad yw:

- mathau arbennig o gŵn gweithio er mwyn arddangos eu gallu gweithio a
- chŵn y tociwyd eu cynffonnau cyn 6 Ebrill 2007 (Lloegr) a 28 Mawrth 2007 (Cymru).

Gall cŵn â chynffonnau wedi eu tocio gael eu harddangos mewn digwyddiadau lle mae'r cyhoedd yn cael mynediad yn rhad ac am ddim.

6. Dyrannu anifeiliaid meirw

Mae'r RSPCA yn gwrthwynebu dyrannu anifeiliaid asgwrn cefn a di-asgwrn-cefn mewn sefydliadau addysgol, ac eithrio ar gyrsiau gradd milfeddygol lle nad oes dewis arall ar gael hyd yma.*

Mae'r RSPCA yn gwrthwynebu gorfodi unrhyw ddisgybl i berfformio neu wylio dyrannu anifail.*

- Cred yr RSPCA y gall naill ai cymryd rhan neu wylio dyrannu arwain at ddatsensiteiddio a lleihau parch tuag at fywyd, a bod y dulliau sy'n rhan o fagu a lladd anifeiliaid i'w dyrannu yn gallu achosi dioddefaint. Dylai barn myfyrwyr nad ydynt am gymryd rhan mewn dyrannu anifail gael ei pharchu heb gosb.

Mae'r RSPCA yn cefnogi creu a defnyddio adnoddau addysgol sy'n darparu dewisiadau arall i ddyrannu.*

Nid yw dyrannu anifeiliaid meirw'n cael ei gynnwys yn Neddf Lles Anifeiliaid 2006. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod trosedd gael ei gyflawni o dan y Ddeddf os yw anifail yn cael ei ddifetha mewn ffordd anaddas ac annynol. Mae hyn yn llawn mor berthnasol i anifeiliaid sy'n cael eu dyrannu.

Cred yr RSPCA gall naill ai cymryd rhan neu wylio dyrannu arwain at ddatsensiteiddio a lleihau parch tuag at fywyd, a bod y dulliau sy'n rhan o fagu a lladd anifeiliaid i'w dyrannu yn gallu achosi dioddefaint. Dylai barn pobl ifanc nad ydynt am gymryd rhan mewn dyrannu anifail gael ei pharchu heb gosb.

Mae'r RSPCA yn cefnogi 'InterNICHE' (www.interniche.org) am ei waith ar adnabod a hyrwyddo'r defnydd o ddulliau eraill heblaw am ddefnyddio anifeiliaid mewn addysg.

7. Arbrofion ymddygiad

Mae'r RSPCA yn gwrthwynebu arbrofion ymddygiad sy'n niweidio lles anifeiliaid gan gynnwys rhai di-asgwrn-cefn.*

- Mae arbrofion ymddygiad sy'n fwriadol yn cyflwyno anifeiliaid i amodau sy'n llai na delfrydol yn gallu arwain at ddatsensiteiddio a lleihau parch tuag at fywyd. Cred yr RSPCA ei bod yn fwy manteisiol yn addysgol i wylio anifeiliaid yn eu hamgylchedd naturiol, yn ymddwyn yn naturiol.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â pholisïau'r RSPCA ar anifeiliaid ymchwil, ewch i www.rspca.org.uk/researchanimals

8. Technoleg

Mae'r RSPCA yn gwrthwynebu defnyddio anifeiliaid mewn prosiectau technoleg sy'n achosi dioddefaint i anifeiliaid. Anogir prosiectau sy'n ymwneud ag estyn bywyd yr anifeiliaid a gwella'r amgylchedd.*

Gall y pwynt olaf gynnwys ymchwilio ac adeiladu blychau nythu a byrddau adar. Am ragor o wybodaeth gweler adnoddau tir ysgol ar www.rspca.org.uk/education.

9. Sefydliadau addysgol sy'n gyfeillgar i anifeiliaid

Mae sefydliadau addysgol sy'n gyfeillgar i ysgolion yn gwneud mwy na dysgu am anifeiliaid yn unig. Maent yn annog athrawon a phlant/pobl ifanc i feddwl am anghenion anifeiliaid a datblygu ymdeimlad o ofal a chyfrifoldeb amdanynt.

Manteision

Mae sefydliad addysgol sy'n gyfeillgar i anifeiliaid yn:

- hyrwyddo synnwyr o gyfrifoldeb a pharch tuag at bob peth byw
- dysgu plant/pobl ifanc am anifeiliaid a'u hanghenion
- ymwybodol o ddeddfwriaeth lles anifeiliaid ac ufuddhau iddi
- edrych ar faterion moesol fel arbrofion anifeiliaid ac effaith bodau dynol ar yr amgylchedd
- annog empathi a dealltwriaeth o anifeiliaid
- berthnasol i fywyd beunyddiol.

Meysydd i feddwl amdanynt

Cyfleoedd cwricwlwm

- Gall lles anifail fod yn bwnc trawsgwricwlaidd neu wedi ei integreiddio i bwnc penodol fel gwyddoniaeth, dinasyddiaeth/ABCI/ABCh a Saesneg neu Gymraeg.
- Yn Lloegr, mae'r cwricwlwm dinasyddiaeth presennol yn cynnig cyfle penodol i addysgu testunau lles anifeiliaid mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Ewch i www.rspca.org.uk/education am ragor o wybodaeth neu i gysylltu â thîm addysg yr RSPCA.

Clybiau 'ar ôl ysgol'

- Gallai lles anifeiliaid fod yn flaenoriaeth i glybiau ar ôl ysgol - bydd plant a phobl ifanc sydd â diddordeb arbennig mewn anifeiliaid yn awyddus i ddysgu sut i ofalu amdanynt yn gywir.
- Ewch i www.rspca.org.uk ac edrychwch ar y safle 'UNDER 8TEENZ'.

Tir

- Mae'r RSPCA yn argymell bod sefydliadau addysgol yn datblygu eu tir er mwyn eu gwneud yn fwy cyfeillgar i anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys clirio sbwriel a pheryglon eraill a rheoli mannau er mwyn annog ac amddiffyn bywyd gwyllt. Am ragor o wybodaeth gweler yr adnoddau gwersi 'tir ysgol' ar www.rspca.org.uk/education
- Bydd mannau bywyd gwyllt a chadwraeth ar dir y sefydliad yn denu amrywiaeth o fywyd gwyllt. Gall plant a phobl ifanc ddysgu am anifeiliaid a'u cynefinoedd ac archwilio ystyriaethau amgylcheddol fel bioamrywiaeth a rhyng-ddibyniaeth.

Sbwriel

- Bob dydd mae arolygwyr yr RSPCA yn achub anifeiliaid anwes ac anifeiliaid gwyllt sydd wedi eu dal neu wedi eu hanafu gan sbwriel. Gall hyd yn oed sbwriel sydd wedi ei osod mewn bin sbwriel orffen ei daith ar safle tirlenwi a gallai fod yn beryglus i anifeiliaid.
- Anogwch ailgylchu a gwnewch yn siŵr bod y gwastraff yn ddiogel i anifeiliaid:
  - ✓ Gall dalwyr plastig tuniau dagu – torrwch y rhain i fyny.
  - ✓ Gall bagiau plastig fygu – rhowch gwlwm ynddynt a'u gwaredu'n gywir.
  - ✓ Gall poteli wedi eu torri achosi anaf – ailgylchwch y rhain yn ddiogel
  - ✓ Gall caniau tun ddal anifeiliaid – tynnwch y cloriau i ffwrdd, a rhowch nhw y tu mewn i'r caniau gan wasgu'r agoriad ar gau.
  - ✓ Gall balŵns ladd os cânt eu bwyta – peidiwch â gollwng balŵns a thorrwch i fyny falŵns wedi eu defnyddio.

Bwyd

- Mae'r RSPCA yn gwrthwynebu pob math o ffermio sy'n achosi gofid neu ddioddefaint, neu sy'n atal anifail o'r cyfle i fynegi ymddygiad naturiol.
- Mae'r RSPCA yn gweithio er mwyn annog newidiadau mewn agweddau tuag at anifeiliaid fferm, a datblygu a gweithredu systemau sy'n bodloni anghenion corfforol ac ymddygiad penodol rhywogaethau unigol.
- Mae Freedom Food a sefydlwyd gan yr RSPCA yn gynllun addewid ffermydd sy'n canolbwyntio yn bennaf ar les anifeiliaid. Mae'r RSPCA yn gosod y safonau ar gyfer pob un o'r rhywogaethau yn y cynllun ac mae'r rhain wedi eu seilio ar ymchwil wyddonol, cyngor milfeddygol a phrofiad ffermio ymarferol. Cynhyrchir nwyddau Freedom Food ar ffermydd sydd wedi eu harchwilio yn unol â safonau lles yr RSPCA. Am ragor o wybodaeth gweler www.freedomfood.co.uk



- Anogwch ddarparwyr arlwyo i gyflwyno bwydlen cinio ysgol sy'n gyfeillgar i anifeiliaid sy'n defnyddio cynnyrch o ffermydd sydd â safon uwch o les anifeiliaid, e.e. Freedom Food.
- Anogwch ddarparwyr arlwyo ysgolion i gyflwyno bwydlenni sy'n fwy cyfeillgar i anifeiliaid (e.e. defnyddio nwyddau fferm Freedom Food).

Cynhyrchion glanhau

- Nod yr RSPCA yn y pen draw yw disodli arbrofion anifeiliaid gyda dewisiadau eraill mwy dyngar. Nes ei bod yn bosibl cyflawni hyn, dylai anifeiliaid sy'n cael eu defnyddio ar gyfer ymchwil gael eu trin yn drugarog a heb iddynt ddioddef. Felly mae'r RSPCA yn ymgyrchu dros y canlynol:
  - ✓ Disodli anifeiliaid byw mewn arbrofion gyda dewisiadau mwy dyngar.
  - ✓ Lleihau nifer yr anifeiliaid a ddefnyddir.
  - ✓ Coethi arbrofion a holl agweddau ar letya, magwraeth a gofal i leihau dioddefaint anifeiliaid a gwella lles anifeiliaid.
- Annog staff glanhau ac arlwyo i ddefnyddio cynhyrchion glanhau nad ydynt wedi cael eu profi ar anifeiliaid.

Teithiau ysgol

- Mae gwylio anifeiliaid sy'n gaeth, gan gynnwys mewn sw, ar ffermydd a pharciau saffari, mewn canolfannau achub a gwarchodfeydd, yn codi nifer o gwestiynau lles anifeiliaid:
  - ✓ Ydy'r anifeiliaid yn ymddwyn yn naturiol?
  - ✓ Ydy eu hanghenion yn cael eu cwrdd?
  - ✓ Beth mae disgyblion yn dysgu am yr anifeiliaid a'u hanghenion wrth eu gweld yn gaeth?
- Mae'r RSPCA yn argymell defnyddio'r rhestr wirio ganlynol cyn mynd â phlant/pobl ifanc i leoliad anifeiliaid:
  - ✓ Ymwelwch â'r lleoliad cyn yr ymweliad er mwyn asesu materion lles anifeiliaid a allai godi a sylwch ar unrhyw ystyriaethau iechyd a diogelwch.
  - ✓ Gofynnwch i ddisgyblion feddwl am yr anifeiliaid, eu hanghenion a'u ffordd o fyw naturiol cyn yr ymweliad. Gwnewch sylw ar yr hyn y byddant yn edrych amdano a pham.
  - ✓ Lluniwch gôd ymddygiad ar gyfer yr ymweliad gyda'r disgyblion er mwyn sicrhau y cedwir unrhyw darfu ar yr anifeiliaid a'u cartrefi i'r lleiaf posibl.
  - ✓ Tynnwch sylw at anghenion yr anifeiliaid gan gwestiynu a ydynt yn cael eu cwrdd, drwy gydol yr ymweliad – anogwch y myfyrwyr i ganolbwyntio ar ansawdd amgylchedd yr anifeiliaid.
  - ✓ Trafodwch unrhyw faterion lles anifeiliaid a godwyd wedi'r ymweliad.

Sut gall yr RSPCA helpu

- Mae gwasanaeth cefnogi addysg yr RSPCA sy'n rhad ac am ddim yn helpu athrawon i ddatblygu dinasyddion gwybodus, cyfrifol a gweithredol, ac yn helpu ysgolion i fod yn fwy caredig i anifeiliaid.
- Mae gan wefan addysg yr RSPCA - www.rspca.org.uk/education - amrywiaeth o adnoddau, yn gysylltiedig â chwricwla Cymru a Lloegr, y gellir eu lawrlwytho am ddim ac sy'n cynnwys taflenni ffeithiau, taflenni gweithgareddau a lluniau.
- Mae gan yr RSPCA dîm o gynghorwyr addysg, hyfforddiant a datblygiad a all drefnu sesiynau HCA a HMS i ddangos sut y gellir defnyddio lles anifeiliaid fel canolbwynt neu gyd-destun i gyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol. I gael manylion cysylltu, ewch i www.rspca.org.uk/education.

Gwefannau defnyddiol

** Polisïau'r RSPCA ar les anifeiliaid* (llyfryn ar gael i'w archebu oddi wrth www.rspca.org.uk/publications)

RSPCA – Addysg
www.rspca.org.uk/education

RSPCA – gofalu am anifeiliaid anwes
www.rspca.org.uk/petcare

RSPCA – grŵp gwyddoniaeth (anifeiliaid fferm, anifeiliaid ymchwil, bywyd gwyllt ac anifeiliaid cwmnïaeth)
www.rspca.org.uk/sciencegroup

RSPCA Freedom Food
www.freedomfood.co.uk

Defra – lles anifeiliaid
http://www.defra.gov.uk/food-farm/animals/

Deddf Lles Anifeiliaid (Lloegr)
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/45/contents

Deddf Lles Anifeiliaid (Cymru)
http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/animalwelfare/animalwelfareact2006/?lang=en

InterNICHE
www.interniche.org

Ysgolion sy'n Tyfu
www.growingschools.org.uk

RSPCA
Wilberforce Way
Southwater
Horsham
West Sussex
RH13 9RS
Wedi ei chofrestru yng Nghymru a Lloegr o dan rif elusen 219099

Llun ar y clawr: Andrew Forsyth/ RSPCA Photolibrary
Lluniau: Stuart Trotter